



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2014-15

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 029 20 44 5030

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: [@comisiwnphcymru](https://www.instagram.com/comisiwnphcymru)

Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Crynodeb o'r gofynion a phatrwm yr adroddiad	3
3. Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	4
4. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	7
5. Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd	18
6. Yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2014-15	21
Atodiad A: Proffiliau'r gweithlu ar 31/03/15	34
Gwybodaeth cyfrif pennau	34
Recriwtio	37
Dysgu a Datblygu	40
Trefniadau Cwyno	42
Trefniadau Disgyblu	42
Ymadawyr	42
Atodiad B: Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2015-16	44
Atodiad C: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn	48

1. Cyflwyniad

Fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, rwyf yn eiriolwr a llais annibynnol dros bobl hŷn sy'n 60 mlwydd oed a mwy, fel y'u diffinnir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Yn sail i'm gwaith mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ac mae hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn hanfodol i'm rôl statudol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau a gymerais yn ystod 2014-15 i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb statudol a amlinellir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Eglurir sut y byddaf yn sicrhau bod fy nhîm a minnau, wrth fwrw ymlaen â'n gwaith, yn ymgysylltu â phobl hŷn, yn eu deall ac yn eu cynnwys, yn eu holl amrywiaeth.

Nid un grŵp unffurf yw pobl hŷn. Maent yn cynrychioli holl amrywiaeth Cymru – yr amrywiaeth hwn yw ein hanfod fel cenedl ac mae i'w ddathlu. Rwy'n falch o fod yn Gomisiynydd dros BAWB o'n pobl hŷn a daliaf i weithio i hyrwyddo cydraddoldeb a gwarchod yr hawl i fyw bywydau ac iddynt werth, ystyr a phwrpas, a sicrhau bod gan bobl hŷn ddewis a rheolaeth dros eu bywydau.



Sarah Rochira

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

2. Crynodeb o'r gofynion a phatrwm yr adroddiad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn awdurdod rhestredig dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a rhaid iddi lynu at y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Ymhlith y gofynion eraill o ran llunio adroddiadau roedd y gofyn am gyhoeddi, erbyn mis Ebrill 2012, Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ymgorffori amcanion penodol, ac wedyn gyhoeddi adroddiad blynyddol ar yr hyn a gyflawnwyd. Rhaid cyhoeddi'r pedwerydd adroddiad blynyddol hwn erbyn 31 Mawrth 2016 fan bellaf.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y dyletswyddau penodol i Gymru ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd:

- Mae Adran 3 yn egluro rôl y Comisiynydd
- Mae Adran 4 yn nodi'r modd y mae Dyletswydd Gyffredinol y Sector Cyhoeddus yn berthnasol i fusnes craidd y Comisiynydd
- Mae Adran 5 yn amlinellu Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd
- Mae Adran 6 yn amlinellu'r hyn a gyflawnwyd i wireddu'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol gan ymgorffori'r dyletswyddau cyffredinol
- Atodiad A – Proffiliau'r gweithlu ar 31 Mawrth 2015
- Atodiad B – Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2015-16
- Atodiad C – Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Gellir gweld copi'au o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd ac adroddiadau blynyddol y gorffennol ar [wefan](#) y Comisiynydd.

3. Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Corfforaeth Undyn yw'r Comisiynydd a grëwyd dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'n endid cyfreithiol annibynnol yn ei hawl ei hun ac yn awdurdod rhestredig i ddibenion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn amlinellu nifer o ddyletswyddau statudol i'r Comisiynydd.

1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny.

Defnyddia'r Comisiynydd ei statws i helpu gosod yr agenda ymysg pobl sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel ynghylch materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, gan hyrwyddo trafodaeth gyhoeddus drwy'r cyfryngau.

Rôl allweddol i'r Comisiynydd yw bod yn eiriolwr grymus dros bobl hŷn, gan arwain ac ymyrryd mewn ystod eang a chynyddol o ddadleuon a phrosesau penderfynu ledled Cymru.

2. Hyrwyddo darpariaeth cyfleon i bobl hŷn yng Nghymru, a sicrhau nad oes gwahaniaethu yn eu herbyn.

Hyrwydda'r Comisiynydd newidiadau i'r gyfraith, canllawiau ac arferion er mwyn dileu anghydraddoldeb. Cyflwynna ddelweddau realistig a chadarnhaol o bobl hŷn, gan gydnabod pobl hŷn yn eu holl amrywiaeth.

Unigolion yw pobl hŷn, ac er bod ganddynt rai pryderon cyffredin, nid yw hynny'n lleihau eu statws fel unigolion. Ni ddylai fod un farn gyffredin am bobl hŷn, a cheisia'r Comisiynydd adlewyrchu hyn yn ei gwaith.

Hyrwydda'r Comisiynydd ddealltwriaeth o natur gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yn ei ffurfiau mwyaf amlwg a'i ffurfiau mwy cuddiedig – ond llawn mor niweidiol – ac mae o'r farn fod mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu mewn modd effeithiol yn gam allweddol er mwyn symud ymlaen ar draws pob maes polisi, nid iechyd a gofal cymdeithasol yn unig.

3. Annog yr arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.

Ceisio'r Comisiynydd gyflawni hyn drwy sawl dull, gan gynnwys dod â phobl a thystiolaeth at ei gilydd a, lle bo angen, cyflawni gwaith ymchwil, er mwyn arddangos yr arfer gorau.

Yn bwysicaf oll, bydd yn pwysu dros ddarparu gwasanaethau rhagorol i bobl hŷn mewn modd eang a chyson. Bydd yn annog pobl i newid arferion sydd wedi hen

ymsefydlu lle dangoswyd bod dulliau eraill yn gweithio'n well. Bydd yn annog darparwyr gwasanaethau i wynebu'r her o newid er mwyn gallu ateb anghenion pobl hŷn yn well, e.e. rhoi cefnogaeth gynnar i bobl hŷn er mwyn eu harbed rhag mynd yn fwy dibynnol yn ddiweddarach.

4. Parhau i adolygu digonoldeb ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Adeilada'r Comisiynydd yr achos dros newid a chyflwynna'r achos hwn i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Sefydla beth yw'r problemau a'r cyfleon drwy ddod ag arbenigwyr cyfreithiol ac eraill at ei gilydd a manteisio ar brofiad a barn pobl hŷn.

Mae'r gyfraith yn rhan hollbwysig o sicrhau grym a gwarchodaeth i bobl hŷn ac o sicrhau unioni cam, ac eto mae'n aml yn gymhleth, yn ddryslyd, yn anodd manteisio arni ac angen ei diwygio. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi chwarae rôl gryf wrth argymhell newidiadau a fydd o fudd i bobl hŷn ac eraill.

Isod wele enghreifftiau o'r mathau o weithgaredd y mae'r Comisiynydd wedi ymwneud â nhw:

- Rhoi arweiniad ar y materion sy'n bwysig i bobl hŷn
- Codi proffil pobl hŷn o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Pwyso ar Lywodraeth Cymru
- Adolygu'r modd y bydd cyrff datganoledig yn cyflawni eu gwaith
- Cyhoeddi canllawiau a safonau
- Cynorthwyo unigolion i wneud cwynion neu sylwadau
- Comisiynu ymchwil neu helpu eraill i wneud hynny
- Cyflawni, comisiynu neu gynorthwyo eraill gyda gweithgareddau addysgol
- Cynnal archwiliadau (ymchwiliadau)
- Cyhoeddi canllawiau anstatudol
- Siarad dros newid deddfwriaeth, canllawiau ac arferion
- Siarad yn gyhoeddus am fethiannau mewn gwasanaethau
- Hyrwyddo ymarfer da

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Comisiynydd yn darparu gwasanaethau rheng flaen ac eithrio trwy gyngor a chymorth uniongyrchol a ddarperir i bobl hŷn trwy ein gwaith achosion a'r gwaith a arweinir gan y tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn

cynnal digwyddiadau a chynhyrchu cyhoeddiadau. Mae a wnelo'r rhan fwyaf o waith y Comisiynydd â chydweithio ag eraill i sicrhau newidiadau mewn polisiau ac arferion.

Amlinellir gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer y presennol a'r dyfodol yn ei '[Fframwaith Gweithredu 2013-17](#)'.

4. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

4.1. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Dyma 3 nod y ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a phob ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Gydraddoldeb.
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd yn rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl sydd hebddi.
3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl sydd hebddi.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymdrin â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Oed
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl
- Anabledd
- Trawsrywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiria at briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond yn nghyswllt yr angen i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

I ddibenion y Ddeddf Gydraddoldeb, nid yw iaith (gan gynnwys y Gymraeg) yn nodwedd warchoddedig. Ond mae'r Comisiynydd o'r farn fod angen ieithyddol yn gydradd â nodweddion eraill. Mae Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn berthnasol i'r Comisiynydd ac mae ganddi [Gynllun Iaith](#). Dywed Cynllun Iaith y Comisiynydd y byddwn yn darparu adroddiadau monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar ben blwydd cymeradwyo'r Cynllun. Eleni, mae'r Comisiynydd wedi cyfranogi yn ail gylch Comisiynydd y Gymraeg o ymchwiliadau safonau. O ganlyniad, ac oherwydd amseriad yr ymchwiliadau hynny, nid ydym wedi paratoi adroddiad monitro blynyddol eleni. Maes o law, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yn ofalus y wybodaeth a ddarparwyd yn sgil yr ymchwiliadau safonau ac yn penderfynu a oes angen unrhyw wybodaeth bellach, yn benodol ar weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiynydd.

Trwy ei gwaith, bydd y Comisiynydd hefyd yn ystyried y modd y mae tlodi a byw mewn ardaloedd gwledig yn effeithio ar fynediad cydradd at wasanaethau.

4.2. Busnes Craidd

Fel corff sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae gan y Comisiynydd a'i staff amrediad o swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau gweinyddol eraill, gan gynnwys:

- Hyrwyddo buddiannau pobl hŷn, gan gynnwys herio gwahaniaethu, annog arferion gorau ac adolygu'r gyfraith.
- Sicrhau bod pobl hŷn ledled Cymru'n gwybod am y swydd.
- Recriwtio, cyflogi, hyfforddi a rheoli staff.
- Caffael gwasanaethau, gan gynnwys tendro am nwyddau a gwasanaethau fel ymchwil.
- Gwobrwyo, cydnabod a thalu i staff.
- Rhoi cymorth i bobl hŷn a hoffai wneud cwyn neu gais gerbron cyrff cyhoeddus neu ddarparwyr gwasanaethau eraill.

4.3. Gwarchod a Chraffu

4.3.1. Gwaith achosion

Cynigia'r Comisiynydd gefnogaeth uniongyrchol i unigolion drwy ei gwaith achosion. Yn 2014-15 cysylltodd oddeutu 525 o bobl â'r Comisiynydd drwy'r gwasanaeth hwn, a hynny drwy ebost, llythyr, galwad ffôn neu – weithiau – gysylltiad wyneb yn wyneb (fel arfer wedi i addasiad rhesymol gael ei wneud i ateb anghenion rhywun).

Caiff pob ymholiad gan unigolyn i'r Comisiynydd ei reoli trwy System Reoli Busnes gan weinyddwr, a fydd wedyn yn cyfeirio'r galwr at y Gweithiwr Achos mwyaf priodol. Cofnodir oed y galwr a/neu oed y person hŷn y mae'r alwad yn berthnasol iddo/iddi ar ein system reoli busnes ynghyd â rhyw a dewis iaith y galwr fel y gallwn gyfathrebu neu ymgysylltu yn newis iaith pobl. Gofynnir cwestiwn cychwynol hefyd ynglŷn ag unrhyw anghenion ychwanegol a allai fod gan unigolyn – fel nam ar y synhwyrau – er mwyn sicrhau y gallwn ateb eu hanghenion yn briodol wrth ddarparu cefnogaeth a sicrhau y cânt fynediad cydradd at ein gwasanaethau.

Ystyriwyd yn ofalus a ddylid sefydlu trefn ffurfiol ac awtomatig i geisio gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig ychwanegol y galwyr. Er mai canfod yn union beth yw cyrhaeddiad ein gwasanaeth yw'r nod, yn amlwg bydd y

mwyafrif o'r galwyr yn cysylltu â'r Comisiynydd ar adeg o argyfwng difrifol yn eu bywydau. Gall rhai galwyr fod yn bryderus, wedi cynhyrfu, neu fod wedi hoelio eu meddwl mor llwyr ar sylwedd eu problem nes y gallai unrhyw ffurf ar holi neu fonitro ychwanegol y tu hwnt i'r cwestiynau sy'n angenrheidiol er mwyn datrys y mater beri rhwystr rhwng y galwr a'r gweithiwr achos.

At ei gilydd, penderfynwyd cyfyngu ein monitro awtomatig ar amrywiaeth galwyr i oed, rhyw, anghenion cyfathrebu a mynediad, gan gynnwys iaith.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu asesu'r graddau yr ydym yn ateb anghenion grŵp cynrychioliadol o bobl hŷn o bob rhan o'r wlad, rydym wedi llunio ffurflen gydraddoldeb newydd yn ystod 2014-15 y gofynnir i bobl ei chwblhau a'i dychwelyd gyda'n ffurflen gydsynio, sy'n caniatáu i'r Comisiynydd weithredu ar ran unigolyn. Wedyn cesglir y wybodaeth hon a'i defnyddio i helpu llenwi unrhyw fylchau posibl yn ein cyrhaeddiad at grwpiau o bobl hŷn neu yn safon y gwasanaeth a ddarparwn.

Y pum problem fwyaf cyffredin y cysylltwyd â ni yn eu cylch yn 2014-15 oedd Gofal (17.5%), Gofal Preswyl (10.9%), Trafnidiaeth (7.0%), Gwasanaethau Cymunedol (6.5%) a Thai (6.5%). Mewn sawl achos gallodd y tîm gyfeirio pobl hŷn at asiantaethau eraill a oedd yn y lle gorau i gynnig help a chefnogaeth iddynt, gan sicrhau nad oedd y Comisiynydd yn dyblygu gwaith eraill. Trwy wneud hyn mae'r Comisiynydd wedi gallu cynyddu'r gefnogaeth a ddarperir i unigolion sydd mewn sefyllfaoedd bregus iawn.

4.3.2. Diogelu a Gwarchod Pobl Hŷn

Amcangyfrifir fod dros 40,000 o bobl hŷn yng Nghymru'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso bob blwyddyn. Ond er gwaethaf y gwaith da sydd ar droed mewn sawl rhan o'r wlad i fynd i'r afael â'r cam-drin y mae pobl hŷn yn ei ddioddef, mae diffyg dealltwriaeth o hyd o fewn gwasanaethau cyhoeddus a chymdeithas yn gyffredinol ynglŷn â natur y cam-drin hwn a'r amgylchiadau sy'n peri i bobl hŷn fynd yn arbennig o agored i niwed neu mewn perygl o ddioddef.

Mae'n hanfodol mynd ati'n systematig yng Nghymru i nodi pobl hŷn sydd mewn perygl o ddioddef niwed a rhai sydd angen cael mynediad at gefnogaeth i'w diogelu. Ar ben hynny, rhaid cydnabod mai gweithred droseddol yw cam-drin pobl hŷn, a chydabod bod pobl hŷn yn ddioddefwyr camdriniaeth yn y cartref lle bônt yn cyfateb i'r diffiniad cyfreithiol. Rhaid darparu cefnogaeth fuan a phriodol i'r rhai sy'n cael eu cam-drin i adfer eu diogelwch a'u lles a rhaid iddynt gael cefnogaeth lawn ein systemau cyfiawnder sifil a throseddol.

4.3.2.1. Mynediad at Gefnogaeth a Chyfiawnder: Adroddiad Gweithio Gyda'n Gilydd

Comisiynodd y Comisiynydd Brifysgol Aberystwyth i edrych ar y modd y mae cyrff ledled Cymru'n canfod bod pobl hŷn yn cael eu cam-drin, yn enwedig cam-drin yn y cartref, a sut y cofnodir gwybodaeth a'i throsglwyddo rhwng asiantaethau.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2015 ac roedd wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau diogelu a gwarchod oedolion rhag cam-drin yn y cartref. Nodwyd bod rhywfaint o ymarfer da ar draws y wlad, ond nad yw'n digwydd yn gyson ym mhob ardal. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion ynghylch sut y gellid gwneud gwelliannau, gan nodi'n glir bod angen mwy o ymwybyddiaeth, ymroddiad a dull gweithio mwy cydlynol os yw pobl hŷn sy'n profi camdriniaeth i gael eu diogelu'n effeithiol.

4.3.2.2. Seminarau Cam-drin

Mae gwarchod oedolion yng Nghymru wedi ei osod ar sail statudol drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Felly mae'n amser da i ystyried sut y gall asiantaethau gydweithio'n well i atal pobl hŷn rhag syrthio trwy'r 'bylchau' sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng gwasanaethau.

Er mwyn gweithredu argymhellion yr Adroddiad 'Cael Cymorth a Chyfiawnder: Cydweithio' ac, yn fwy cyffredinol, i gynyddu gwybodaeth a syniadaeth am y troseddau a'r cam-drin yn erbyn pobl hŷn, cynhaliodd y Comisiynydd gyfres o seminarau i weithwyr proffesiynol ym maes gwarchod oedolion a darparwyd gwasanaethau cymorth arbenigol i rai sy'n dioddef cam-drin a thrais rhywiol yn y cartref ledled Cymru, gyda chefnogaeth arbenigwyr ym maes diogelu a gwarchod oedolion.

Targedwyd y seminarau at bobl sy'n gweithio i warchod pobl hŷn yn uniongyrchol, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ar lefel strategol fel Prif Weithredwyr a llunwyr polisïau allweddol o fewn Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, Heddluoedd ac amryw o gyrrff trydydd sector.

Mynychwyd y seminarau gan 132 o bobl o bob rhan o Gymru, ac ynddynt pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi hawliau cyfartal a llais cryfach i bobl hŷn, yr angen am gydweithio mwy effeithiol i sicrhau y gall pobl hŷn gael cefnogaeth a chyfiawnder priodol, a'r angen i wella gwybodaeth a dealltwriaeth am gam-drin pobl hŷn yn eu cartrefi.

Cymerodd mynychwyr y seminarau ran hefyd mewn sesiynau gweithdy a ymchwiliodd i ffyrdd ymarferol o gydweithio'n fwy effeithiol i sicrhau newid a chynnig mwy o warchodaeth i bobl hŷn. Y farn gyffredinol gan y mynychwyr oedd fod y seminarau wedi gwella'u gwybodaeth am raddfa, natur ac effaith y

cam-drin a ddiodefir gan bobl hŷn, ac y byddent yn ystyried pa gamau y gallai eu sefydliadau eu gweithredu i sicrhau y caiff camdriniaeth pobl hŷn ei adnabod a'i gofnodi ac yr ymatebir yn briodol iddo. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu cynlluniau gweithredu a fydd yn arwain at well ymateb a gwasanaeth i bobl hŷn yng Nghymru.

4.3.2.3. Llyfryn Gwybodaeth – Cam-drin domestig a thrais rhywiol: Cymorth a Chefnogaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru

Er mwyn codi ymwybyddiaeth cyhoeddus am gam-drin a thrais rhywiol sy'n effeithio ar bobl hŷn yn eu cartrefi, mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi llyfryn gwybodaeth dwyieithog sy'n amlinellu'n glir y mathau o gam-drin a wynebant a'r gefnogaeth sydd ar gael i helpu rhoi terfyn ar y cam-drin hwn, yn ogystal â darparu gwybodaeth ynglŷn â chysylltu â Llinell Gymorth Cymru Gyfan ar gyfer Camdriniaeth a Thrais Rhywiol yn y Cartref.

Hyd yn hyn, mae 25,000 copi o'r llyfryn wedi'u dosbarthu ledled Cymru i ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Heddluoedd, Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Cymorth i Fenywod a Gwasanaethau Eiriolaeth.

4.4. Lles a Grymuso

Mae Tîm Lles a Grymuso'r Comisiynydd yn dylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau ar y lefel uchaf yng Nghymru. Maent yn cynrychioli ac yn hyrwyddo buddiannau pobl hŷn i gyrff cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Tîm Lles a Grymuso'n sicrhau eu bod yn gwybod am y datblygiadau diweddaraf, nid dim ond mewn perthynas ag oedran, ond hefyd â materion ynghylch nodweddion gwarchoddedig eraill. Gan adeiladu ar waith y Comisiynydd i sicrhau y clywir ac y gwrandewir ar leisiau pobl hŷn, mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi parhau i gwrdd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod polisi ac ymarfer yn addas i'r problemau a wynebir gan bobl hŷn ac yn ateb eu hanghenion.

Yn y cyfarfodydd hyn cafwyd cyfle i'r Comisiynydd godi pryderon ynghylch meysydd deddfwriaeth sydd heb roi sylw digonol i bobl hŷn a chytuno ar y ffyrdd mwyaf effeithiol ymlaen i sicrhau'r newid angenrheidiol.

Mae'r Comisiynydd wedi cyfarfod â Chadeiryddion nifer o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol i bwysleisio meysydd lle gellid ymchwilio ac ymholi ac mae hi wedi croesawu nifer o ymholiadau pwyllgor a fu'n arbennig o berthnasol i bobl hŷn. Mae'r Comisiynydd wedi cyfarfod hefyd ag Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol er mwyn sicrhau bod mwy o ddealltwriaeth ynglŷn â'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru a'r ffaith nad yw'r

materion hyn wedi'u cyfyngu i iechyd a gofal cymdeithasol yn unig, ond eu bod yn berthnasol i ehangder llawn eu portffolios.

4.4.1. Ymatebion i Ymgynghoriadau

Trwy gydol 2014-15, ymatebodd y Tîm Lles a Grymuso i ystod eang o ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, gan ddefnyddio'r profiadau a rannwyd gan bobl hŷn o bob rhan o Gymru. Wrth wneud hyn sicrhair y clywir lleisiau pobl hŷn ac y cyflawnir y newidiadau y mae arnynt eisiau ac angen eu gweld:

- NYmgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Bil Isafswm Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru), Mehefin 2014
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer Bil Iechyd Cyhoeddus, Mehefin 2014
- Fframwaith Sgiliau a Datblygu Gyrfa GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd Clinigol, Gorffennaf 2014
- Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol, Medi 2014
- Ymholiad i Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Medi 2014
- Ymholiad i gynnig cyllideb drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16, Medi 2014
- Ymholiad i Dlodi yng Nghymru, Medi 2014
- Adolygiad o'r Cod Ymarfer i Weithwyr Gofal Cymdeithasol, Medi 2014
- Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol, Hydref 2014
- Datblygiad Polisi ar Weithgaredd Corfforol, Tachwedd 2014
- Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Ymgynghoriad ar y Rheoliadau a'r cod ymarfer, Chwefror 2015.

4.4.2. Tystiolaeth a ddarparwyd i Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Trwy gydol 2014-15, rhoddodd y Comisiynydd dystiolaeth lafar hefyd i nifer o Ymchwiliadau'r Cynulliad Cenedlaethol:

- Ymchwiliad i anghymhwysu person rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Mehefin 2014

- Ymchwiliad i Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd yng Nghymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Gorffennaf 2014
- Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr 2013-14, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Hydref 2014
- Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Tachwedd 2014
- Craffu Cyffredinol ar Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Tachwedd 2014
- Ymchwiliad i Gyfleoedd Cyflogaeth i Bobl Dros 50 oed, Pwyllgor Menter a Busnes, Ionawr 2015

4.4.3. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Er bod y Comisiynydd yn gefnogol i nod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n adlewyrchu blaenoriaeth gyntaf y Fframwaith Gweithredu am 2013-17 sef sefydlu lles pobl hŷn wrth graidd gwasanaeth cyhoeddus, mynegodd bryderon wrth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am yr effaith bosibl ar hawliau gofalwyr, yn dilyn sylwadau gan grwpiau gofalwyr yng Nghymru.

Pryderai'r Comisiynydd na fyddai Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fel y'u drafftwyd yn wreiddiol, yn ddigonol i ddiogelu sefyllfa gofalwyr, a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Nododd y Comisiynydd yn glir na ddylid tanseilio'r dyletswyddau i warchod a diogelu gofalwyr di-dâl a geid yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn dilyn gwelliant sy'n ceisio sicrhau y cedwir hawliau gofalwyr yr un fath ar draws Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ill dwy, bydd y Comisiynydd yn cadw llygad ar y sefyllfa i weld a gedwir at y bwriad i warchod yr hawliau a roddwyd i ofalwyr dan y Mesur Gofalwyr.

4.4.4. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Roedd y Comisiynydd wedi croesawu'r bwriad y tu ôl i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a llawer o'i manylion. Ond bydd i ba raddau y gwreiddir y bwriad hwn i bobl hŷn mewn llawer i achos yn dibynnu ar y rheoliadau a'r codau ymarfer a ddatblygir i danategu'r Ddeddf, a'r modd y bydd cyrff cyhoeddus yn eu gweithredu. Felly bydd y Comisiynydd yn parhau i gadw diddordeb cryf yn y pum maes isod:

- Diogelu

- Eiriolaeth
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Proses Asesu a Meini Prawf Cymhwysedd
- Codi Tâl am Wasanaethau

Mae'r Comisiynydd wedi ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau ynglŷn â'r rheoliadau a'r codau ymarfer sy'n ymwneud â diogelu, gwybodaeth, cyngor a chymorth, y broses asesu a meini prawf cymhwysedd.

Bydd y Comisiynydd yn parhau hefyd i gymryd diddordeb arbennig yn y modd y gweithredir y ddyletswydd i roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ac i ba raddau y mae'r egwyddorion hyn yn sail i weithrediad gofal cymdeithasol i'r dyfodol.

Er nad yw'r manylion sylfaenol ynglŷn â chodi tâl am ofal a gwasanaethau cefnogol ddim wedi'u cyhoeddi eto ar gyfer ymgynghoriad, rydym wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru drwy'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ar Dalu am Ofal a thrwy drafodaethau helaeth gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch materion allweddol y mae pobl hŷn wedi eu codi gyda'r Comisiynydd.

Mae'r Comisiynydd wedi bod yn glir fod yn rhaid cadw'r uchafswm tâl wythnosol am ofal cartref a bod yn rhaid i unrhyw drefniadau a wneir ar gyfer talu am ofal preswyl ystyried cwestiynau tegwch a chyflwyno ffordd ymlaen sy'n glir a chredadwy, na fydd yn cadw pobl hŷn rhag symud i ofal preswyl pan mai dyna'r dewis gorau iddynt.

Bellach mae'r Comisiynydd yn aros am gynigion Llywodraeth Cymru ynglŷn â thalu am ofal cartref a phreswyl yng Nghymru. Datganodd y Comisiynydd yn glir hefyd na ddylid cyflwyno taliadau am wasanaethau ataliol gan y gallai hynny rwystro pobl hŷn rhag manteisio arnynt a milwrio yn erbyn y bwriad y tu ôl i'r polisi.

4.4.5. Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Mae'r Comisiynydd yn falch fod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 wedi'i phasio'n ddiweddar gan y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd yn newid y seilwaith yng Nghymru trwy greu arweiniad cryfach a sicrhau ffocws cryfach a mwy cyson ar fynd i'r afael â'r materion hyn.

Rydym wedi ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhyw, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol. Rydym wedi ymgysylltu hefyd, a byddwn yn parhau i wneud, â Thîm Trais yn erbyn

Menywod a Cham-drin Domestig Llywodraeth Cymru i gynnal y ffocws ar bobl hŷn.

Bydd fframwaith hyfforddi cenedlaethol yn sicrhau ansawdd a hyfforddiant cyson, rhywbeth sydd ysywaeth wedi bod yn brin ers tro. Mae'r Comisiynydd wedi datgan yn glir fod angen i'r hyfforddiant fod yn gysylltiedig ag oed er mwyn rhoi ystyriaeth i'r problemau i bobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n dioddef dementia a/neu nam ar y synhwyr. Rydym wedi tynnu sylw hefyd at y bylchau sydd ar hyn o bryd ym map ffordd 'Taith y Dioddefwr', nad oedd wedi cynnwys cam-drin pobl hŷn nac wedi sôn gair am ddiogelu oedolion.

Bydd y Comisiynydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru gan ddisgwyl y parheir i weld gwelliant yn yr ymateb a roddir i bobl hŷn sydd yn dioddef, neu wedi dioddef, trais rhywiol a chamdriniaeth yn y cartref.

4.4.6. Gwahaniaethu a Rhagfarn ar sail Oedran

Mae'r Comisiynydd wedi datgan yn glir fod yn rhaid dathlu'r ffaith ein bod yn genedl o bobl hŷn a bod angen i bobl hŷn gael eu portreadu mewn ffordd gytbwys gan adlewyrchu eu gwir werth i gymdeithas. Bydd y Comisiynydd yn manteisio ar bob cyfle i herio rhagfarn ar sail oedran ac i hyrwyddo gwerth ein pobl hŷn, gan bwysleisio'r angen i feddwl amdanynt fel asedau. Rydym yn gweithio hefyd i gynyddu gwybodaeth a syniadaeth ynghylch sut i adnabod a delio â gwahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran.

Yn 2013-14, cynhaliwyd cyfres o seminarau hyfforddi i geisio helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall effaith y rhagfarn hon yn well a'r modd yn mae'n bwydo arferion sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn.

Ar ôl cael ymateb cadarnhaol iawn i'r seminarau cychwynnol hyn, a fynychwyd gan 147 o weithwyr proffesiynol, aed ati i ledaenu'r hyfforddiant, a ddarparwyd yn rhad ac am ddim, yn ehangach yn ystod 2014-15.

Bu'r seminarau'n gymorth i weithwyr ddeall y modd y gall rhagfarn ar sail oed effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau, a'r modd y gall rhagfarn ac arferion gwahaniaethol arwain at wasanaethau cyhoeddus nad ydynt yn ateb anghenion pobl hŷn. Cafwyd nifer o ymarferion yn y seminarau hefyd i ganiatáu i'r mynychwyr feddwl yn ymarferol am sut i ddatblygu cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus cyfeillgar i bobl hŷn.

Hyd yn hyn, mae cyfanswm o 264 o weithwyr proffesiynol o gyrrff fel Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a Sefydliadau Trydydd Sector wedi cwblhau'r hyfforddiant, ac mae llawer wedi dweud y byddant yn rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda chydweithwyr, yn annog cydweithwyr i arddel agwedd fwy cadarnhaol at oedran ac yn herio arferion gwahaniaethol. Croesawyd y ffaith fod yr hyfforddiant yn cynnwys ffocws ar ddull seiliedig ar hawliau, a sut y gellid

defnyddio hyn i sicrhau newid.

Ceir manylion pellach ar [wefan](#) y Comisiynydd.

4.4.7. Edrych ar Hawliau: Datganiad Hawliau Pobl Hŷn

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi datgan yn gyhoeddus sawl gwaith fod pobl hŷn yng Nghymru, yn llawer rhy aml, yn wynebu gwahaniaethu annerbyniol ac yn gorfod ymdrechu i gael cydnabod a chynnal eu hawliau sylfaenol.

Roedd y Comisiynydd yn falch, felly, o gael cefnogaeth trawsbleidiol i'w galwad i gryfhau hawliau pobl hŷn a bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn iddi gadeirio Grŵp Cynghori Annibynnol i ystyried ac ymchwilio i rinweddau cael Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn i Gymru – y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig.

Wedyn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Hawliau Pobl Hŷn Cymru ym mis Gorffennaf 2014.

Ceir manylion pellach ar [wefan](#) y Comisiynydd.

4.5. Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Deil y Comisiynydd a'i thîm i ymgysylltu'n uniongyrchol ag amrywiaeth o bobl hŷn ar hyd a lled Cymru, trwy'r '[Sioe Ymgysylltu Deithiol](#)', i sicrhau eu bod yn gwybod am waith y Comisiynydd a sut y gall hi eu helpu a'u cefnogi.

Er mwyn sicrhau bod y Comisiynydd a'i thîm yn ymgysylltu â chymaint o amrywiaeth o bobl hŷn ag sy'n bosibl, awn i'r manau lle maent yn byw eu bywydau, fel cartrefi gofal, cynlluniau tai gofal ychwanegol, grwpiau cynnal, grwpiau gofalwyr, caffis dementia, canolfannau dydd a chlybiau cymdeithasol.

Mae tîm y Comisiynydd wedi ffurfio perthynas ragorol â chyrrff sy'n gweithio ar ran pobl â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r rhai na chlywir eu lleisiau'n aml.

Rydym wedi dechrau ymgysylltu mwy â phobl sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, ardaloedd gwledig a chymunedau Cymraeg. Rydym yn ymgysylltu mwy hefyd â grwpiau sy'n cynrychioli pobl sy'n Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a grwpiau ar gyfer rhywiau penodol. Rydym wedi cyfarfod â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig trwy gynyddu ein hymwneud â grwpiau gofalwyr, mewn cartrefi gofal a thai gwarchod. Er na chaiff y rhain eu nodi yn yr ystadegau a gasglwn, rydym wedi cyfarfod ag amrediad llawer mwy amrywiol o bobl hŷn nag erioed o'r blaen.

Mae'r Comisiynydd wedi cynhyrchu taflen wybodaeth newydd i sicrhau bod pobl hŷn yn gwybod am ei gwaith, sut i gysylltu â hi a sut y gall hi sicrhau cymorth a chefnogaeth iddynt. Mae'r taflenni ar gael yn y Gymraeg, Saesneg, Bengali,

Gujarati, Somali ac Urdu yn ogystal â phrint bras a sain. Dosbarthwyd dros 13,000 o gopïau o'r daflen i bob meddygfa yng Nghymru, ysbytai cymunedol, pob fferyllfa, deintyddfa, tai gwarchod a chyfleusterau gofal ychwanegol, ac Asiantaethau Gofal a Thrwsio ym mhob Awdurdod Lleol.

Darperir taflen newyddion i randdeiliaid bob chwarter, yn electronig ac ar ffurf copi caled ynghyd â fersiynau hygyrch.

Dilyna'r wefan ganllawiau hygyrchedd (cydymffurfiad AAA) a chaiff ei diweddarau'n rheolaidd i gynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb, hawliau dynol a gwarchod oedolion.

5. Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd

Cyhoeddodd y Comisiynydd Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar ei newydd wedd ym Mawrth 2014 ar ôl ymgynghori â phobl hŷn a rhanddeiliaid, i gymryd lle'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gyhoeddwyd ym Mawrth 2012.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn nodi amcanion cydraddoldeb penodol ac yn amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol. Cyhoeddwyd y strategaeth newydd i sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u sefydlu ym meddylfryd ac arferion gweithio'r Comisiynydd a'i staff.

Ym mis Tachwedd 2014, diweddarodd y Comisiynydd y ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i roi gwell ystyriaeth i briodas a phartneriaeth sifil, a hynny'n dilyn adborth buddiol ar gwblhau EIA yn ystod y flwyddyn.

Nododd y Comisiynydd yr amcanion canlynol ar gyfer 2012-16:

- 1. Sicrhau wrth gyflogi staff nad wyf yn gwahaniaethu yn erbyn neb, fy mod yn hybu cyfle cyfartal i bawb ac yn meithrin perthynas dda rhwng aelodau staff.**
 - Fe geisiaf gynyddu amrywiaeth fy ngweithlu
 - Fe gaiff pawb o'r staff gyfleon i ddatblygu a symud ymlaen er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn cael yr un cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn
 - Fe sicrhaf fod pob aelod o'r staff yn cael ei wobrwyo ac yn derbyn tâl ar sail gyfartal, nodwedd warchoddedig neu beidio
 - Fe sicrhaf fod diwylliant o fewn fy sefydliad lle bydd pob aelod staff yn teimlo'n gyfforddus i fod yn agored ynglŷn â'i nodweddion gwarchoddedig ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi gennyf fi fel cyflogwr ac ar draws y sefydliad.
- 2. Sicrhau bod fy mholisiau a'm harferion caffael a'r dogfennau tendro cysylltiedig yn cymryd i ystyriaeth yr angen i ateb gofynion cydraddoldeb cyfreithiol.**
 - Fe adolygaf fy holl bolisiau ac arferion caffael a'm dogfennau tendro i sicrhau eu bod yn cwblhau dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus
 - Fe sicrhaf fod contractwyr yn gwbl ymwybodol o'm dyletswyddau cydraddoldeb trwy ysgrifennu hyn yn y manylebau tendro a thrwy brofi eu

dealltwriaeth yn ystod y broses ddewis

3. Sicrhau bod fy ngwaith yn berthnasol i bobl hŷn, ac y gwelir ei fod yn berthnasol i bawb ohonynt.

- Fe ymgysylltaf yn fwy o lawer â phobl hŷn ar draws yr holl wahanol nodweddion gwarchoddedig a thrwy hyn sicrhaf fod eu lleisiau'n bwydo ac yn llywio fy ngwaith
- Fe wnaif yn siŵr wrth lunio adroddiadau am effaith a chyrhaeddiad fy ngwaith y cyfeirir yn benodol at grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig
- Fe gryfhaf yr asesiad effaith sy'n sail i'm gwaith er mwyn sicrhau bod fy ngwaith yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith nodweddion gwarchoddedig ar y canlyniad a geisir i bobl hŷn

4. Sicrhau bod fy ngwaith wedi'i seilio fwyfwy ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau a bod agenda hawliau'n cael ei datblygu drwy Gymru gyfan.

- Fe ddarparaf hyfforddiant hawliau dynol parhaus i bob un o'm staff
- Fe arfogaf fy staff i ddeall a hyrwyddo beth a olygir yn ymarferol wrth ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol

5. Grymuso ac arfogi pobl hŷn i herio'r gwahaniaethu y maent yn ei wynebu.

- Trwy fy ngwaith, fe rymusaf a chynorthwyo pobl hŷn i herio arferion gwahaniaethol a sicrhau eu hawliau dynol
- Fe gryfhaf y modd y gweithiwn mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol er mwyn cryfhau ein lleisiau ac effaith ein gwaith
- Fe arfogaf bobl hŷn â'r wybodaeth a'r offer i ymladd yn erbyn gwahaniaethu
- Fe ddarparaf gefnogaeth a chymorth i bobl hŷn sydd wedi dioddef gwahaniaethu

6. Hyrwyddo darlun cywir a chytbwys o bobl hŷn yn eu holl amrywiaeth, cynyddu dealltwriaeth am bobl hŷn a'u hanghenion a herio ystrydebau di-sail a bychanol, yn fy sefydliad i ac ymysg sefydliadau eraill.

- Fe gynyddaf ddyfnder y ddealltwriaeth ymysg fy staff am amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach

- Fe gynyddaf ddyfnder y ddealltwriaeth ymysg gwasanaethau cyhoeddus allweddol am amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach
- Fe heriaf ystrydebau a mythau negyddol am bobl hŷn yn barhaus, gan osod disgwyliadau clir ar gyfer newid

7. Annog a chefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gydymffurfio â'u dyletswyddau eu hunain dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y maent yn berthnasol i bobl hŷn a herio achosion difrifol o beidio â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol.

- Fe roddaf arweiniad i gyrff cyhoeddus sy'n gwneud newidiadau i wasanaethau allweddol er mwyn eu cynorthwyo i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol yng nghyswllt ymgysylltu, asesu effaith a chymesuredd
- Fe sicrhaf fod newidiadau i wasanaethau a allai gael effaith sylweddol ar bobl hŷn yn cael eu hadolygu'n barhaus, a lle credaf fod effaith niweidiol sylweddol neu effaith anghymesur sylweddol yn debygol byddaf yn galw cyrff cyhoeddus i gyfrif
- Fe sicrhaf fod cynlluniau cydraddoldeb a chynlluniau strategol allweddol eraill Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r Byrddau Iechyd yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu dealltwriaeth gadarn o effaith nodweddion gwarchoddedig ar bobl hŷn ac ar y modd y darperir gwasanaethau a chefnogaeth.

6. Yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2014-15

Amlinellir isod yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn yr amcanion:

Amcan 1: Sicrhau wrth gyflogi staff nad wyf yn gwahaniaethu yn erbyn neb, fy mod yn hybu cyfle cyfartal i bawb ac yn meithrin perthynas dda rhwng aelodau staff.

Fe gaiff pawb o'r staff gyfleon i ddatblygu a symud ymlaen er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn cael yr un cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn (erbyn Mawrth 2015)

- Dywed staff wrth gael eu gwerthuso eu bod wedi tyfu a datblygu yn eu gwaith a chynhaliwyd adolygiadau chwemisol ym mis Hydref 2014. Cyfle yw hyn i nodi anghenion datblygu a dysgu strwythuredig.
- Mae rhaglen lawn o ddigwyddiadau wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfodydd tîm bob mis. Cymerodd staff ran hefyd mewn hyfforddi cyfeillion dementia a hyfforddi ynghylch rhagfarn oed yn ystod y flwyddyn.
- Er y diynir arferion da ar hyn o bryd, mae'r Comisiynydd yn Eiriolwr dros Stonewall a bydd yn parhau i weithio gyda'r corff hwnnw i wneud gwelliannau pellach a mabwysiadu unrhyw arferion da ychwanegol ar gyfer pob nodwedd warchoddedig.
- Enillodd y Comisiynydd wobwr arian Buddsoddwyr mewn Pobl (BMP) ym Mehefin 2014. Yn ôl BMP 'mae gwobr Arian yn dangos eich bod yn flaengar wrth raeadru arfer da drwy eich sefydliad a bod gennyh agwedd flaengar at wella busnes trwy eich pobl'.
- Crëwyd a gweithredwyd Polisi Urddas a Chydraddoldeb yn y Gwaith yn 2014-15, gan gyfuno'r hen Bolisiau ar Gydraddoldeb, Bwlio ac Aflonyddu. Ymgynghorwyd â'r staff fel rhan o broses datblygu'r polisi.

Fe gynhaliwn archwiliad cyflog cyfartal (erbyn Mawrth 2015)

Mae'r Comisiynydd wedi ceisio cyngor gan gynghorydd arbenigol annibynnol ynglŷn â'n strwythur a'n polisi cyflogau presennol. Wedi adolygu'r data cychwynnol, cawsom wybod bod ein sefydliad mor fach fel nad oes digon o ddata ar gael i gynnal ymarfer archwilio cyflogau yn ffurfiol.

Yn lle hynny, adolygodd y cynghorydd arbenigol ein polisiau a'n trefn gyflogau a gwobrwyon presennol i chwilio am unrhyw wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol. Yn sgil canfyddiadau'r adolygiad hwn byddwn yn

bwrw ymlaen â'r meysydd canlynol yn 2015-16:

- Adolygu'r broses ar gyfer dyfarnu incrementau ychwanegol i staff sy'n rhoi perfformiad eithriadol er mwyn sicrhau y dangosir tryloywder, tegwch a chysonder;
- Adolygu'r golofn gyflog a bandiau cyflog ac adolygu'r broses ar gyfer penderfynu ar fandiau cyflog i swyddi newydd er mwyn gwarchod rhag gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol.

Amcan 2: Sicrhau bod fy mholisiau a'm harferion caffael a'r dogfennau tendro cysylltiedig yn cymryd i ystyriaeth yr angen i ateb gofynion cydraddoldeb cyfreithiol.

Cyflawnwyd Amcan 2 erbyn Mawrth 2014.

Amcan 3: Sicrhau bod fy ngwaith yn berthnasol i bobl hŷn, ac y gwelir ei fod yn berthnasol i bob un ohonynt.

Fe ymgysylltaf yn fwy o lawer â phobl hŷn ar draws yr holl wahanol nodweddion gwarchoddedig a thrwy hyn sicrhaf fod eu lleisiau'n bwydo ac yn llywio fy ngwaith (erbyn Mawrth 2016)

Rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 March 2015 cyfarfu'r Comisiynydd a'i thîm â 216 o grwpiau ym mhob rhan o Gymru, gan deithio dros 23,000 milltir i gyrraedd mwy na 5,700 o bobl hŷn. Ymwelodd y Comisiynydd a'i thîm â phob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru, gan gyfarfod a siarad â phobl hŷn mewn amryw o ddigwyddiadau, o gynadleddau mawr i gyfarfodydd fforwm i grwpiau cynnal a chymdeithasol lleol.

Mae ein Sioe Ymgysylltu Deithiol wedi targedu grwpiau a digwyddiadau sy'n ceisio cyrraedd pobl â nodweddion gwarchoddedig, fel Swansea Sparkles (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol), Sefydliad y Merched a Men in Sheds (Rhyw). Er mwyn cynrychioli amrywiaeth pobl Cymru, chwiliwn am grwpiau hefyd o fewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, ardaloedd gwledig ac ardaloedd Cymraeg. Rydym wedi datblygu cysylltiadau agos â Mudiad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo (CISWO) er mwyn estyn allan at Gymunedau Glofaol Cymru.

Mae'r Sioe Ymgysylltu Deithiol wedi galluogi pobl hŷn i rannu gwybodaeth am eu profiadau, y pethau sydd bwysicaf iddynt a'r pethau sy'n eu poeni fwyaf am dyfu'n hŷn yng Nghymru.

Fe wnaif yn siŵr wrth lunio adroddiadau am effaith a chyrraeddad fy ngwaith y cyfeirir yn benodol at grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig (erbyn Mawrth 2015)

- Mae'r gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud ar faterion sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn wastad wedi'i seilio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl hŷn sy'n meddu ar unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig.
- Mae'r gwaith a wnaethom wedi cael effaith gadarnhaol i ystod ehangach o bobl hŷn nag yn 2008-2013.

Rydym wedi darparu gwasanaeth effeithiol ar sail gwaith achosion i ystod amrywiol o bobl hŷn a chanddynt amrywiaeth eang o anghenion. Rydym wedi defnyddio offer newydd i fonitro cydraddoldeb er mwyn casglu data ynglŷn â nodweddion gwarchoddedig. Ar hyn o bryd defnyddiwn daenlen i gofnodi a dadansoddi'r data hyn. Mae gennym gynlluniau i wella'n system rheoli cofnodion i gofnodi a dadansoddi nodweddion amrywiol yr unigolion sy'n cysylltu â'n gweithwyr achosion yn llawnach.

Amcan 4: Sicrhau bod fy ngwaith wedi'i seilio fwyfwy ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau a bod agenda hawliau'n cael ei datblygu drwy Gymru gyfan.

Darparaf hyfforddiant hawliau dynol parhaus i bob un o'm staff (erbyn Mawrth 2015).

Mae'r staff i gyd wedi cael hyfforddiant i ddeall deddfwriaeth hawliau dynol a chafodd yr hyfforddiant ei deilwra ymhellach ar gyfer y Tîm Lies a Grymuso a'r Tîm Gwarchod a Chraffu i ateb anghenion cwblhau busnes megis gwaith achosion a datblygu polisi. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan Sefydliad Hawliau Dynol Prydain, sy'n arbenigwr ac arweinwr cydnabyddedig o fewn y sector.

Fe arfogaf fy staff i ddeall a hyrwyddo beth a olygir yn ymarferol wrth ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol. (erbyn Mawrth 2016)

Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a ddatblygwyd trwy'r hyfforddiant uchod i amlgu hawliau pobl hŷn pan ymatebwn i ymgynghoriadau ac wrth nodi'r blaenoriaethau o fewn Rhaglen Waith a cyhoeddiadau'r Comisiynydd ei hun. Chwaraeodd y Comisiynydd ran bwysig i alluogi cyhoeddi [Datganiad Hawliau Pobl Hŷn Cymru](#) ym mis Gorffennaf 2014.

Amcan 5: Grymuso ac arfogi pobl hŷn i herio'r gwahaniaethu y maent yn ei wynebu.

Trwy fy ngwaith, fe rymusaf a chynorthwyo pobl hŷn i herio arferion gwahaniaethol a sicrhau eu hawliau dynol. (erbyn Mawrth 2015)

Rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 March 2015 cyfeiriwyd 525 o achosion newydd at y Tîm Gwarchod a Chraffu a chaewyd 538 o achosion, a'r rheiny'n ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys gofal preswyl, gofal, gwasanaethau cymunedol, trafnidiaeth a thai.

Mae'r Tîm Gwarchod a Chraffu wedi cyflawni amrediad o ymyriadau, o rai sylfaenol a phenodol er dangos y ffordd, drwodd i eiriolaeth a chynrychioli pobl. Mae hynny wedi cynnwys cyfathrebu trwy lythyr, ebost, galwadau ffôn a chyfarfodydd. Gellir gweld astudiaethau achos sy'n rhoi manylion rhai o'r ymyriadau hyn yng Nghoflyfr y Comisiynydd, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2015.

Fe gryfhaf y modd y gweithiwn mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chydarddoldeb a hawliau dynol er mwyn cryfhau ein lleisiau ac effaith ein gwaith. (erbyn Mawrth 2015)

Hola'r Comisiynydd yn rheolaidd am farn sefydliadau eraill sy'n cynrychioli barn pobl hŷn ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig ynglŷn â datblygiad polisi cenedlaethol, deddfwriaeth, ymchwiladau ac arolygon.

Siarad ag 'Un Llais': Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Comisiynydd ddatblygu achos busnes eiriolaeth dros bobl hŷn, ac fe ymgwymerodd â hynny gydag amrediad o bartneriaid allweddol (Age Cymru, Age Connects, Cymdeithas Alzheimer's, CLILC a'r Senedd Pobl Hŷn). Bu datblygu'r achos busnes eiriolaeth yn fodd i bartneriaid rannu pryderon am y diffyg llais i bobl hŷn ar wyneb y bil drafft, a chydweithio ag 'un llais' i sicrhau bod darpariaethau ar gyfer eiriolaeth yn cael eu pennu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'u cydnabod ar wyneb y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr achos busnes eiriolaeth bellach yn dylanwadu ar ddatblygiad y rheoliadau sy'n eistedd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Wrth gynnal yr Adolygiad hwn o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl yng Nghymru, sefydlodd y Comisiynydd Fwrdd Cynghori ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg er mwyn sicrhau y gallem gael gwybodaeth, beirniadaeth a chynngor arbenigol annibynnol am brofiadau amrywiol pobl hŷn. Ymhlith yr aelodau roedd Rhwydweithiau Amrywiaeth Age Cymru, Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru, Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG, Hosbis Marie Curie, Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru, Race Equality First, RNIB, Tai Pawb, Comisiynydd y Gymraeg ac arbenigwyr academaidd o Brifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru.

Aethom ati hefyd i recriwtio tîm o "rapporteurs gofal cymdeithasol", arbenigwyr trwy brofiad personol a phroffesiynol ym meysydd nam ar y synhwyrau, gofal dementia ac eiriolaeth annibynnol i weithredu fel cynrychiolwyr dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Eu gwaith hwy oedd gwyllo, gwrandao ac adrodd yn ôl ar ansawdd bywyd a gofal i bobl hŷn mewn cartrefi gofal ledled y wlad. Deuai llawer o'r unigolion hyn o sefydliadau blaenllaw yn y sector gan gynnwys Action on Hearing Loss, Age Cymru, Cymdeithas

Alzheimer's, Gofal a Thrwisio Cymru, ac RNIB Cymru, ac roeddent yn gallu rhoi adborth gwybodus am ansawdd bywyd pobl hŷn â nam ar y synhwyrau, dementia, ac eiddilwch emosïynol a chorfforol.

Sefydlwyd amryw o grwpiau ffocws gyda chymorth y sefydliadau canlynol:

- Action on Hearing Loss
- African Caribbean Elder Society
- Dyfed Diners
- Cyngor Hindŵiaid Cymru
- Cyngor Mwslimiaid Cymru
- RNIB Cymru
- Cymdeithas Integreiddio Somaliaid
- Swan Gardens Chinese Sheltered Accommodation
- Rhwydwaith Pobl Drawsrywiol Unique

Derbyniodd y Comisiynydd dystiolaeth lafar hefyd gan unigolion o'r grwpiau canlynol i gael mewnbwn gan arweinywyr sector:

- Age Cymru
- Cymdeithas Alzheimer's
- Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi (CSP)
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (COT)
- Dementia Care Matters
- Academi Gofal Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot

Ochr yn ochr â'r grwpiau ffocws a'r sesiynau tystiolaeth lafar, cynhaliwyd nifer o Fyrddau Crwn Thematig ar amrywiaeth o faterion allweddol i bobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl, gyda'r grwpiau canlynol:

Eiriolaeth

- Age Cymru Bae Abertawe
- Age Connects Caerdydd a'r Fro
- Age Concern Gogledd Cymru Canolog
- Age Connects Cymru
- Cymdeithas Alzheimer's
- HERC Associates

Tai

- Tai Cymunedol Cymru
- Cymorth Cymru
- Gwalia
- Gofal Hafod
- Gofal Linc
- Grŵp Tai Pennaf

Anableddau Dysgu

- Fforwm Cymru Gyfan (Rhieni a Gofalwyr)
- Cartrefi Cymru
- Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion

- Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf

- Mirus

Nam ar y Synhwyr

- Action on Hearing Loss Cymru

- Deafblind Cymru

- RNIB Cymru

Aethom ati hefyd i ddadansoddi dystiolaeth ysgrifenedig gan y sefydliadau canlynol sy'n gweithio dros hawliau pobl hŷn:

- Action on Hearing Loss Cymru

- Cynghrair Henoed Cymru

- Age Cymru

- Cymdeithas Alzheimer's

- Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru

- British Geriatrics Society (BGS)

- Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi yng Nghymru (CSP)

- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (COT)

- Deafblind Cymru

- Dementia Care Matters

Mae'r dyfnder deialog ac ymgysylltu hwn wedi creu corff sylweddol o dystiolaeth sydd wedi cynyddu effaith canfyddiadau'r Adolygiad yn fawr gan sicrhau bod casgliadau a Gofynion Gweithredu terfynol yr adolygiad yn llawer anoddach i'w herio.

Fe arfogaf bobl hŷn â'r wybodaeth a'r offer i ymladd yn erbyn gwahaniaethu. (erbyn Mawrth 2015)

Ar ein gwefan ceir templedi a gwybodaeth ddefnyddiol y gall pobl hŷn eu defnyddio i herio arferion gwahaniaethol ar sail oed, ac maent yn eu defnyddio i wneud hynny.

Mae pobl hŷn yn deall mwy am wahaniaethu o ganlyniad i hyfforddiant a ddarparwyd gan y Comisiynydd ac maent yn defnyddio'r wybodaeth honno i herio rhai sy'n gwahaniaethu:

- Mae'r Pecyn Cymorth Ymgysylltu'n rhoi'r arfau angenrheidiol i bobl hŷn yng Nghymru i drafod a herio prosesau penderfynu awdurdodau lleol a chadernid asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.
- Yn ystod 2014-15 mae'r Comisiynydd wedi parhau i gynnig sesiynau hyfforddi di-dâl ar 'ragfarn oed' gyda'r bwriad o ymchwilio i'r modd y mae heneiddio'n effeithio ar fywydau pobl hŷn, eu teuluoedd a'u cymunedau yng Nghymru. Yn y sesiynau archwiliwyd y rhagfarnau y gallwn eu dal yn ddiawybod a sut y mae hyn yn effeithio ar y modd y cynllunnir ac y darperir gwasanaethau i bobl hŷn. Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddi rhwng Ebrill a Mawrth ac fe'u mynychwyd gan gynrychiolwyr ystod eang o sefydiadau pobl hŷn a sector cyhoeddus.

Mae Ymgysylltu Effeithiol gydag Awdurdodau Lleol: Pecyn Cymorth ar gyfer Pobl Hŷn yn arf buddiol ac ymarferol sy'n rhoi gwybodaeth eang am y modd y gall pobl hŷn sicrhau y clywir eu llais, sut y gallant herio penderfyniadau a'r gefnogaeth sydd ar gael i'w helpu i wneud. Mae'r pecyn yn pwysleisio na ddylai "newidiadau [yn y dyfodol] i wasanaethau cymunedol lleol fynd ymlaen heb ymgysylltu effeithiol, ymgynghori cywir a dadansoddiad llawn a chadarn o'r effaith y bydd y rhain yn eu cael ar les pobl hŷn, gyda chynlluniau effeithiol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru'r effaith hon".

Cyfeiria'r pecyn cymorth at Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan bwysleisio bod y Ddeddf yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn cymryd camau i sicrhau y clywir barn pobl hŷn ac eraill â nodweddion gwarchoddedig. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswyddau dan y Ddeddf i ymgysylltu â rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys oed) a gwneud Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) wrth ddatblygu neu adolygu polisiau. Mae'r pecyn yn pwysleisio'r ffaith mai'r Ddeddf yw'r darn allweddol o ddeddfwriaeth y gellir herio cyfreithlondeb lleihau gwasanaethau drwyddi.

Cyfeirir hefyd at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o fewn y Ddeddf. Mae'r ddyletswydd, fel y'i hamlinellir yn y pecyn cymorth, yn sicrhau yr adeiledir ystyriaethau cydraddoldeb i mewn i gynllun polisiau a chyflenwad gwasanaethau ac y'u cedwir dan arolygaeth.

Amcan 6: Hyrwyddo darlun cywir a chytbwys o bobl hŷn yn eu holl amrywiaeth, cynyddu dealltwriaeth am bobl hŷn a'u hanghenion a herio ystrydebau di-sail a bychanol, yn fy sefydliad i ac ymysg sefydliadau eraill.

Fe gynyddaf ddyfnder y ddealltwriaeth ymysg gwasanaethau cyhoeddus allweddol am amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach. (Mawrth 2015)

Rydym wedi rhannu gwybodaeth â sefydliadau ac unigolion eraill trwy ddarparu hyfforddiant ar ragfarn oed a sicrhau bod gwybodaeth am adnoddau ar gael ar ein gwefan, sydd wedi arwain at:

- Ymateb cadarnhaol gan y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus allweddol sy'n derbyn yr hyfforddiant
- Adborth fod gwasanaethau cyhoeddus wedi addasu eu ffyrdd o weithio yn sgil yr hyfforddiant a/neu'r wybodaeth a gawsant

Mae gwerthusiad cychwynnol o'r hyfforddiant wedi'i gwblhau sy'n rhoi llawer o adborth cadarnhaol manwl am werth yr hyfforddiant a'r modd y mae wedi gwella dealltwriaeth y rhai a gymerodd ran am ragfarn a gwahaniaethu ar sail oed. Dro ar ôl tro, dywedodd pobl a gymerodd ran eu bod wedi canfod bod yr hyfforddiant yn addysgiadol a diddorol iawn ac wedi'i gyflwyno'n dda. Cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol am wybodaeth yr hwylusydd a phobl yn dweud y byddent yn argymhell yr hyfforddiant i'w cydweithwyr.

Dyweddodd mwyafrif llethol y rhai a gymerodd ran fod myndu'r hyfforddiant wedi newid y ffordd y maent yn meddwl am bobl hŷn, ac y gwnânt newidiadau i'w harferion gweithio oherwydd hynny. Ymhlith ymatebion cyffredin cafwyd yr ymrwymadau canlynol y byddent yn:

- Codi sgiliau staff
- Gwneud gwahaniaeth mewn gwasanaethau ac yn canfod a nodi achosion o ragfarn oed

- Adolygu polisi a datblygu deunyddiau hyfforddi mewnoi
- Rhannu a phwysleisio pwysigrwydd materion allweddol gyda chydweithwyr
- Hysbysu rheolwr ac adolygu cynnwys ein hyfforddiant cyfredol
- Trafod gyda chydweithwyr a rhannu profiadau
- Adolygu'r ffordd rwy'n meddwl am rai agweddau yn fy swydd fy hun
- Cymryd cam yn ôl ac edrych ar bethau trwy lygaid ein preswylwyr hŷn
- Rhannu gyda gwirfoddolwyr, gan bwysleisio'r pwysigrwydd
- Cyfrannu at ddatblygu hyfforddiant cydraddoldeb [o fewn y sefydliad]
- Datblygu maes gwaith pobl hŷn

O ran adborth llai cadarnhaol, ceir un thema gyson: siom gyda'r diffyg deunydd i'w ddarllen cyn y cwrs, a/ neu lawlfr i'r cwrs, sy'n golygu bod rhaid dibynnu ar wybodaeth a dynnir o'r diwrnod hyfforddi ei hun. Caiff yr hyfforddiant ei wella ar sail yr adborth a gafwyd hyd yn hyn a chyhoeddir cyfres o ddeunyddiau hyfforddi ar gyfer rhagfarn oed yn 2015-16 i lenwi'r bwloch hwn.

Cafwyd un sylw fel a ganlyn: "Siomedig iawn na chawsom y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Dim problem gyda'r cyflwyniad, ond roedd yna ddigon o siaradwyr Cymraeg inni fod wedi cael cynnal trafodaeth grŵp pwnc yn Gymraeg". Doedd yr aelod staff a gyflwynodd yr hyfforddiant ddim yn siaradwr Cymraeg; wrth drefnu unrhyw ddigwyddiad felly fe gynigiwn ddarparu cyfieithu ar y pryd. Mae'n fwriad gennym ehangu ein hyfforddiant yn y dyfodol ac fe chwiliwn am gyfleon i gyflwyno'r hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015-16.

Amcan 7: Annog a chefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gydymffurfio â'u dyletswyddau eu hunain dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y maent yn berthnasol i bobl hŷn a herio achosion difrifol o beidio â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol.

Fe roddaf arweiniad i gyrrff cyhoeddus sy'n gwneud newidiadau i wasanaethau allweddol er mwyn eu cynorthwyo i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol yng nghyswilt ymgysylltu, asesu effaith a chymesuredd (erbyn Mawrth 2015)

Rydym wedi herio cyrff sector cyhoeddus nad ydynt yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol trwy ein gwaith achosion. Mae hyn yn cynnwys herio byrddau iechyd ac awdurdodau lleol am y diffygion wrth gyflawni eu dyletswyddau, a'u dal i gyfrif ar ran pobl hŷn yng Nghymru. Dyma rai enghreifftiau o hyn:

- Cefnogi person hŷn i herio'n ffurfio y modd gwael y trosglwyddwyd ei ofal o'r gwasanaethau cymdeithasol i iechyd yn dilyn asesiad ei fod yn gymwys i barhau i dderbyn cyllid gofal iechyd, a bod hynny wedi peryglu ei les corfforol ac emosiynol
- Cefnogi person hŷn i herio penderfyniad gan Awdurdod Lleol ynglŷn â Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r penderfyniad i roi'r gorau i ariannu lleoliad mewn cartref gofal preswyl yn y cyfamser, gan beryglu ei lles corfforol ac emosiynol a'i hurddas
- Cefnogi grŵp o denantiaid i herio penderfyniad awdurdod lleol ynglŷn â rhoi'r gorau i ddarparu staff cymorth ar y safle 24/7
- Cefnogi grŵp o denantiaid i herio ymddygiad a chyfathrebiad cymdeithas dai tuag atynt wedi iddynt gefnogi cyd-breswlydd a oedd dan fygythiad cael ei droi allan
- Cefnogi person hŷn i herio Penderfyniad Budd Pennaf a wnaed gan Fwrdd Iechyd ynglŷn â lleoliad cartref gofal ei chyfaill agosaf.

Cyhoeddodd y Comisiynydd Ganllawiau ffurfiol i Awdurdodau Lleol drwy Gymru gyfan, gan ddefnyddio pwerau dan Adran 12 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Pwrpas y Canllawiau hyn oedd eu hatgoffa am eu dyletswydd i sicrhau ymgysylltu ac ymgynghori llawn, ystyrlon ac effeithiol gyda phobl hŷn pan gynigir newidiadau i wasanaethau cymunedol a phan wneir penderfyniadau allweddol. Ar ben hynny, dywedodd y Canllawiau'n glir hefyd fod angen i Awdurdodau Lleol ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda phobl hŷn er mwyn sicrhau bod eu penderfyniadau'n rhoi ystyriaeth lawn ac yn adlewyrchu anghenion, pryderon a blaenoriaethau pobl hŷn.

Nododd y Canllawiau'r gwahanol ffyrdd y dylai Awdurdodau Lleol fod yn ymgysylltu â phobl hŷn, gan amlinellu pwysigrwydd ymgysylltu'n amserol, cyrraedd y rhai na chlywir eu lleisiau'n aml a sicrhau y defnyddir y dull ymgysylltu mwyaf effeithiol. Pwysleisiodd y Canllawiau hefyd ei bod yn bwysig asesu'n fanwl beth fydd effaith penderfyniadau ar bobl hŷn a bod angen sicrhau nad dim ond ymarfer ticio blychau yw asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Wedi cyhoeddi'r Canllawiau, ysgrifennodd y Comisiynydd at bob Awdurdod Lleol i ofyn iddynt gadarnhau eu bod wedi eu derbyn a sut y bwriadant eu defnyddio yn eu gwaith ar wasanaethau cymunedol yn y dyfodol er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw newidiadau effaith anghymesur ar bobl hŷn. Dyma rai enghreifftiau o sut y bydd Awdurdodau Lleol yn gweithredu'r Canllawiau:

- Wrth gynllunio cynigion cyllideb 2015-16, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cynhyrchu Canllawiau Aseu Effaith ar Gydraddoldeb i fynd ochr yn ochr â'u templed ar gyfer cynigion Arbedion. Caiff pobl hŷn gyfleon digonol i roi sylwadau ar y cynigion drwy amryfal fforymau, e.e. y Cyngor Pobl Hŷn;
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n hollol ymwybodol o'i ddyletswyddau dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, ac mae ei asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys Oed fel maen prawf penodol sydd angen ystyriaeth. Bydd gwefan y Cyngor ar ei newydd wedd yn cynnwys dolenni i wefan y Comisiynydd er mwyn cael y pecyn cymorth a'r Canllawiau;
- Yn eu Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe'n peilota newidiadau yng nghyswllt nodwed warchoddedig Oed. Mae'r Canllawiau cysylltiedig sy'n cael eu peilota'n cynnwys ystyriaeth i gymunedau cyfeillgar i henoed, pobl sy'n byw gyda dementia a gweithio ar draws y cenedlaethau. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod ganddo broses gadarn o sicrhau ansawdd ar gyfer pob Aseiad Effaith, a chynhwysir y broses ym mhob adroddiad corfforaethol er mwyn sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb o fewn y broses ffurfio penderfyniadau.

Yn Chwefror 2013, cyhoeddodd y Comisiynydd ganllawiau ffurfiol i Fyrddau lechyd, dan adran 12 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, yn amlinellu'r safonau a ddefnyddiai i fesur gweithredoedd Byrddau lechyd wrth ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn ynghylch newidiadau i wasanaethau'r Gwasanaeth lechyd. Ym Mawrth 2013, gofynnodd y Comisiynydd am dystiolaeth bellach i geisio sicrwydd bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u gwarchod yn ddigonol gan Fyrddau lechyd. Wedi dadansoddi'r holl dystiolaeth a

gyflwynwyd, mae'r Comisiynydd wedi ysgrifennu at bob Bwrdd lechyd yn unigol gyda sylwadau ar y dystiolaeth a gyflwynwyd ganddynt, gan wneud argymhellion i holl Fyrddau lechyd Cymru. Mae'r adborth hwn wedi mynd yn ei flaen ac mae'n ymwneud â sawl pryder parhaus ledled Cymru, sef:

- Pwysigrwydd ymgysylltu rhagweithiol a pharhaus, yn enwedig gyda phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchoddedig, gofalwyr a rhai sy'n byw gyda dementia, sydd yn dal heb gael ystyriaeth benodol wrth ymgysylltu nac ymgynghori.
- Gorddibyniaeth ar wefannau i gyfleu penderfyniadau terfynol, heb fawr o dystiolaeth o ymgysylltu cynlluniedig a systematig i gyfleu penderfyniadau terfynol i bobl hŷn.

Fe sicrhaf fod cynlluniau cydraddoldeb a chynlluniau strategol allweddol eraill Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r Byrddau lechyd yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu dealltwriaeth gadarn o effaith nodweddion gwarchoddedig ar bobl hŷn ac ar y modd y darperir gwasanaethau a chefnogaeth. (erbyn Mawrth 2015)

Mae'r Comisiynydd yn defnyddio ymatebion i ymgynghoriadau hefyd i annog cyrff cyhoeddus i feddwl am eu dyletswyddau eu hunain dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dyma rai enghreifftiau diweddar:

- Ymateb y Comisiynydd i Ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol i gyllideb ddrafft arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16. Pwysleisia'r Comisiynydd lle bo dyraniadau'r gyllideb ddangosol yn arwain at yr angen i newid natur darpariaeth gwasanaeth neu newid yn hygyrchedd gwasanaethau, y bydd hi'n edrych am asesiad cadarn o'r effaith ar bobl hŷn yn sgil unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau fel sy'n ofynnol ar gyrrff cyhoeddus dan y Ddeddf Cydraddoldeb;
- Ymateb y Comisiynydd i Ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol i'r Bil Addysg Uwch (Cymru). Croesawodd y Comisiynydd bwyslais y Bil ar gynnal ffocws cryf ar fynediad teg at addysg uwch. Mae hyn yn adeiladu ar y Ddeddf Gydraddoldeb, gan roi gwarchodaeth bellach rhag gwahaniaethu i bobl hŷn sy'n ceisio mynediad i addysg uwch.

Atodiad A: Proffiliau'r gweithlu ar 31/03/15

Gwybodaeth cyfrif pennau

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y bobl a gyflogir gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn fesul nodwedd warchoddedig.

- Oed
- Trawsrywedd
- Rhyw
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl
- Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred

Bydd y Comisiynydd yn ymgymryd ag arolwg staff blynyddol i gasglu data cydraddoldeb rheolaidd. Mae'r arolwg hwn yn gyfrinachol ac mae'r ymatebion yn ddiennw. Am y flwyddyn 2014-15 cafodd y Comisiynydd 22 ymateb allan o 30 posibil. Ond oherwydd maint y sefydliad, lle bo'r ffigurau'n cyfrif am lai na 10%, tynnwyd y manylion allan er mwyn sicrhau na ellir adnabod unigolion.

Nifer y bobl a gyflogir fesul Nodwedd Warchoddedig:

Oed	
16-24	-
25-34	9
35-44	8
45-54	-
55-64	-
65 a throsodd	-
Dewis Peidio Dweud	-

Rhyw	
Gwryw	6
Benyw	16
Dewis Peidio Dweud	-

Ai'r rhyw a briodolwyd ichi pan gawsoch eich geni yw'r rhyw yr ydych yn ei arddel nawr?

Ie	22
Na	-
Dewis Peidio Dweud	-

Cyfeiriadedd rhywiol

Deurywiol	-
Dyn Hoyw	-
Menyw Hoyw / Lesbiad	-
Heterorywiol / Strêt	19
Arall	-
Dewis Peidio Dweud	-

Crefydd neu Gred

Dim crefydd na chred	12
Cristion (pob enwad)	10
Bwdydd	-
Hindw	-
Iddew	-
Mwslim	-
Sikh	-
Unrhyw grefydd neu gred arall	-
Dewis peidio dweud	-

Hil (yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl)

Gwyn: Sais/Saesnes	-
Gwyn: Albanwr/Albanes	-
Gwyn: Cymro/Cymraes	20
Gwyn: Gogledd Iwerddon	-
Gwyn: Prydeiniwr/wraig	-
Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	-
Gwyn: Gwyddel/Gwyddeles	-
Gwyn: Arall	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn a Du'r Caribî	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn a Du Affrica	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn ac Asiaidd	-
Cefndir ethnig cymysg/lluosog arall	-
Asiaidd – Indiaidd	-

Asiaidd – Pacistani	-
Asiaidd – Bangladeshi	-
Asiaidd – Tsieineaidd	-
Asiaidd – Prydeiniwr/wraig	-
Cefndir Asiaidd Arall	-
Du – Caribiaidd	-
Du – Affricanaidd	-
Du – Prydeiniwr/wraig	-
Du – Arall (rhowch fanylion)	-
Grŵp ethnig arall (rhowch fanylion)	-
Dewis peidio dweud	-

Anabledd	Oes	Na / Amh	Dewis Peidio Dweud
Oes gennych anabledd, yn eich tyb chi?	-	20	-
Oes gennych anabledd fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb?	-	20	-
Oes gan o leiaf un person sy'n ddibynnol arnoch anabledd?	-	22	-

Cymerwyd y data isod o gofnodion Adnoddau Dynol yn hytrach na thrwy'r arolwg staff blynyddol.

Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Nifer gweithwyr beichiog yn ystod 2014-15	3
Nifer gweithwyr yn cymryd Absenoldeb Mamolaeth yn ystod 2014-15	-

2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y dynion a'r menywod a gyflogir, wedi'u didoli yn ôl y categorïau canlynol:

Swydd	Dyn	Menyw	Cyfanswm
Gweinyddwr	2	2	4
Swyddog Cymorth/Cynorthwyol a Swyddog	4	13	17
Arweinydd	2	2	4
Cyfarwyddwr	0	4	4
Comisiynydd	0	1	1

Cyflog a Gradd	Dyn	Menyw	Cyfanswm
16,100 – 19,800 / A	2	2	4
20,550 – 25,000 / B	2	5	7
26,200 – 31,850 / C	2	8	10
33,450 – 40,600 / D	1	2	3
43,050 – 54,350 / E	1	2	3
51,300 – 72,750 / F	0	2	2
60,000 – 117,800* / Comisiynydd	0	1	1

*Pennwyd y Lefel Cyflog gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch

Math o Gontract	Dyn	Menyw	Cyfanswm
Parhaol	5	18	23
Tymor Penodol	2	5	7
Dros Dro	-	-	-
Patrwm Gweithio	Dyn	Menyw	Cyfanswm
Amser Llawn	6	19	25
Rhan Amser	1	2	3
Oriau Cywasgedig	1	1	2

Recriwtio

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r corff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwmo i gynyddu amrywiaeth ei staff drwy adolygu prosesau recriwtio'r Comisiynydd gan gynnwys y ffurflen gais, sut yr hysbysebwn a ble yr hysbysebwn.

Mae ffurflenni cais eisoes ar gael mewn gwahanol fformatau a chyhoeddir hysbysebion recriwtio'n helaeth gan ddefnyddio sawl cyfrwng gwahanol. Mae gan y Comisiynydd Bolisi Urddas a Chydraddoldeb yn y Gwaith a dilyna arfer dda yn y broses recriwtio. Yr adran Adnoddau Dynol yn unig gaiff weld pob gwybodaeth ynglŷn â nodweddion gwarchodedig o fewn ffurflenni cais ac ni rennir hynny gyda'r panel dewis. Yn ogystal, mae addasiadau rhesymol ar gael i bob ymgeisydd a nodir hyn ar y ffurflen gais a chyfeirir ato eto pan wahoddir ymgeiswyr i gyfweiliad. Fe ddarparwyd addasiadau rhesymol ar gyfer un ymgeisydd yn 2014-15.

Mae'r Comisiynydd yn dal i ddatblygu a gwella'r strategaeth recriwtio a'r prosesau trin ceisiadau er mwyn hyrwyddo gweithlu amrywiol. Ni fydd llawer o gyfle i gynyddu'r staff a ddaw i mewn oherwydd cyfyngiadau cyllidebol ar swyddi

ychwanegol, maint y sefydliad, a throsiant isel staff.

Yn ystod 2014-15 recriwtiodd y Comisiynydd ar gyfer 10 swydd, a'u llenwi, trwy ddulliau recriwtio allanol a 2 swydd trwy brosesau recriwtio mewnol. Caiff pob ymgeisydd mewnol ac allanol gyfle i lenwi ffurflen Monitro Amrywiaeth wrth gyflwyno'u cais, ond nid pob ymgeisydd sy'n dewis llenwi a chyflwyno ffurflen. Derbyniodd y Comisiynydd 52 o Ffurflenni Monitro Amrywiaeth wedi'u llenwi wrth recriwtio yn ystod 2014-15.

Nifer y ceisiadau am swyddi yn 2014-2015 a gafwyd gan y grwpiau gwarchodedig canlynol:

Oed	
16-24	1
25-34	5
35-44	13
45-54	15
55-64	18
65 a throsodd	-
Dewis Peidio Dweud	-

Rhyw	
Gwryw	17
Benyw	35
Trawsrywiol G>M	-
Trawsrywiol M>G	-
Dewis Peidio Dweud	-

Cyfeiriadedd rhywiol	
Deurywiol	-
Hoyw / Lesbiad	1
Heterorywiol	49
Arall	-
Dewis Peidio Dweud	2

Crefydd neu Gred	
Dim crefydd na chred	19
Cristion (pob enwad)	29
Bwdydd	1
Hindw	-
Iddew	-

Mwslim	-
Sikh	-
Unrhyw grefydd neu gred arall	2
Dewis peidio dweud	1

Hil (yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl)	
Gwyn: Sais/Saesnes	4
Gwyn: Albanwr/Albanes	-
Gwyn: Cymro/Cymraes	29
Gwyn: Gogledd Iwerddon	-
Gwyn: Prydeiniwr/wraig	13
Gwyn: Sipsi/Teithiwr Gwyddelig	-
Gwyn: Gwyddel/Gwyddeles	-
Gwyn: Arall	2
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn a Du'r Caribî	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn a Du Affrica	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn ac Asiaidd	-
Cefndir ethnig cymysg/lluosog arall	-
Asiaidd – Indiaidd	-
Asiaidd – Pacistani	-
Asiaidd – Bangladeshi	-
Asiaidd – Tsieineaidd	-
Asiaidd – Prydeiniwr/wraig	-
Cefndir Asiaidd Arall	1
Du – Caribiaidd	-
Du – Affricanaidd	1
Du – Prydeiniwr/wraig	2
Du – Arall (rhowch fanylion)	-
Grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) Arab	-
Dewis peidio dweud	-

Anabledd	Oes	Na / Amh	Dewis Peidio Dweud
Oes gennych anabledd, yn eich tyb chi?	2	50	-

Ni chasglwyd data ynglŷn â beichiogrwydd a mamolaeth yng nghyswllt gweithgaredd recriwtio am 2014-15.

2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am newid swydd o fewn yr awdurdod, gan nodi faint fu'n llwyddiannus yn eu cais a faint na fu'n llwyddiannus.

Recriwtiodd y Comisiynydd i 2 swydd trwy ddulliau recriwtio mewnol yn ystod 2014-15, a'u llenwi.

Un cais mewnol a gafwyd am y naill swydd a'r llall. Bu'r ddau ymgeisydd mewnol yn llwyddiannus.

Oherwydd maint y sefydliad, gan fod y ffigwr hwn yn cyfrif am lai na 10%, tynnwyd y manylion allan fel na ellir adnabod unigolion.

Dysgu a Datblygu

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a faint fu'n llwyddiannus yn eu cais.

Mae'r Comisiynydd yn dal Gwobr Arian Buddsoddwyr mewn Pobl, ac, fel y dywedir ym Mholisi Dysgu a Datblygu'r Comisiynydd, ei nod yw bod yn sefydliad sy'n dysgu, a meithrin y sgiliau a'r wybodaeth y bydd ar staff eu hangen er mwyn llwyddo yn eu swyddi. Mae'r polisi hwn felly yn cefnogi diwylliant o ddysgu a datblygu staff rhagorol ar bob lefel.

Anogir pawb o'r staff i fanteisio ar gyfleon dysgu a datblygu sy'n berthnasol i'w swyddi a'u datblygiad personol. Bydd y Comisiynydd yn:

- darparu amgylchedd gweithio heriol, lle anogir staff i ddatblygu a magu sgiliau newydd a phrofiad.
- darparu amrediad o gyfleon datblygu i staff a fydd yn gyson ag anghenion strategol a gweithredol y Comisiynydd.[†]
- sicrhau y caiff pob aelod staff newydd ddealltwriaeth sylfaenol o rôl, swyddogaeth, polisiâu a gweithdrefnau'r Comisiynydd wrth gael eu sefydlu yn eu swydd.
- asesu anghenion dysgu a datblygu'r Comisiynydd ac unigolion a llunio dadansoddiad anghenion hyfforddi a dysgu'r Comisiynydd.
- cynnal cynlluniau hyfforddi a datblygu unigol a chytuno arnynt gyda phob aelod staff fel rhan o'r broses gwerthuso perfformiad.
- adolygu cynlluniau unigolion a'r Comisiynydd o leiaf bob blwyddyn; asesu effeithiolrwydd ymyriadau hyfforddi a bwydo hynny'n ôl i gynlluniau wedyn.

Caiff pob aelod staff gyfle cyfartal i hyfforddi, a chymeradwyodd y Comisiynydd bob cais am weithgaredd Dysgu a Datblygu (hyfforddiant) yn ystod 2014-15.

2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant.

Cwblhaodd pob aelod staff amrediad eang o hyfforddiant, gan gynnwys pynciau cyffredinol fel codi a chario, TG, hyfforddiant sgiliau cyflwyno a'r Gymraeg, ynghyd â hyfforddiant penodol i rôl, fel diogelu, adolygiadau barnwrol, grantiau cyfleusterau anabledd a hyfforddiant cyfryngau.

Ni fyddwn yn cofnodi hyfforddiant a gwblheir fesul nodwedd warchoddedig, ond cadwn gofnodion staff unigol.

Bydd pob aelod staff yn cael hyfforddiant am gydraddoldeb a nodweddion gwarchoddedig yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y swydd fel rhan o'u rhaglen sefydlu. Yn naturiol rhoddir mwy o bwyslais ar faterion yn ymwneud ag oed oherwydd rôl y sefydliad.

Er mwyn sicrhau bod gan staff well dealltwriaeth o'r modd y mae hawliau dynol yn gweithio yn ymarferol, rhoddwyd hyfforddiant penodol ar hawliau dynol i staff yn ystod 2014/15, gan gynnwys presenoldeb yn y digwyddiad 'Cydraddoldeb yn 2015', dwy sesiwn yn canolbwyntio ar Amddifadu o Hawliau Rhyddid. Rhoddodd Sefydliad Hawliau Dynol Prydain hyfforddiant ar: Iechyd Meddwl a Galluedd Meddyliol, Hawliau Dynol a Diogelu, a sesiwn wedi'i deilwra at anghenion penodol y Comisiynydd a Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Cymerodd pawb o'r staff ran hefyd mewn sesiwn hyfforddi mewnol fel rhan o Ddiwrnod Cwrdd i Ffwrdd lle canolbwyntiwyd ar gydraddoldeb, gan rannu'r staff yn grwpiau i ymchwilio i welliannau posibl i amryfal agweddau ymarferol o'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithio, fel cynllun ein derbynfa a'r arwyddion i mewn/allan.

Mynychodd nifer o'r staff Hyfforddiant Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymwysedig, Hyfforddiant Eiriolaeth, hyfforddiant Cadair Achub/Tân, hyfforddiant Cyfeillion Dementia a sesiwn Ymwybyddiaeth o glefyd Parkinson.

Cafodd staff y Comisiynydd hyfforddiant perthnasol i'w rolau ar ymwybyddiaeth iechyd meddwl, gan fynychu digwyddiadau Stonewall Cymru, yn cynnwys Rhaglen Modelau Rôl. Cefnogodd y Comisiynydd raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall hefyd a chyflwynodd ail gais y sefydliad i 'Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle' Stonewall yn 2014 (cyhoeddwyd yn 2015). Gosodwyd y sefydliad yn rhif 238 allan o'r 397 o gyflogwyr Prydeinig a gymerodd ran (gwelliant o 24 safle oddi ar y cais cyntaf yn 2013/14). Trwy weithio gyda Stonewall Cymru, mae'r Comisiynydd wedi gwneud nifer o welliannau hefyd i arferion gweithio ac ymarfer mewnol, fel yr iaith a ddefnyddir

mewn polisïau adnoddau dynol wrth gyfeirio at gyplau a rhieni o'r un rhyw.

Mae nifer o sesiynau hyfforddi wedi'u trefnu hefyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol (2015-16) i godi ymwybyddiaeth o wahanol nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys hyfforddiant penodol i reolwyr llinell), gwahaniaethu ar sail oed, ac effaith y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar y modd y darperir gwasanaethau i bobl hŷn.

Anogir y staff i gyd hefyd i fynychu digwyddiadau ymgysylltu â phobl hŷn a chanddynt amrediad o nodweddion gwarchoddedig.

Trefniadau Cwyno

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a fu'n ymwneud â threfn gwyno naill ai fel achwynwr neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei erbyn.

Ni fu neb o staff y Comisiynydd yn ymwneud â threfn gwyno naill ai fel achwynwr neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn ystod 2014-15.

Trefniadau Disgyblu

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr fu'n destun trefniadau disgyblu.

Bu un aelod o staff y Comisiynydd yn destun trefn ddisgyblu yn ystod 2014-15. Oherwydd maint y sefydliad, gan fod y ffigwr hwn yn cyfrif am lai na 10%, tynnwyd y manylion allan fel na ellir adnabod unigolion.

Ymadawyr

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a adawodd gyflogaeth yr awdurdod.

Yn ystod 2014-15 ymadawodd tri aelod staff â'u swyddi ar sefydliad y Comisiynydd ac ymadawodd un unigolyn arall â'r Comisiynydd oherwydd i'w contract tymor penodol ddod i ben fel a gynlluniwyd.

Gan fod pob data ar gydraddoldeb staff yn ddiennw, does dim data penodol ar gael am nodweddion gwarchoddedig y staff hyn. Ond mae'r Comisiynydd yn dal gwybodaeth am oed a rhyw i ddibenion adnoddau dynol ynglŷn â'r staff penodol hyn, a dyma'r wybodaeth:

Oed	
16-24	-
25-34	1

35-44	2
45-54	1
55-64	-
65 a Hŷn	-
Dewis Peidio Dweud	-

Rhyw	
Gwryw	2
Benyw	2
Dewis Peidio Dweud	-

Atodiad B: Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2015-16

Amcan	Arweiniad	Amseriad	Modd mesur
1. Sicrhau wrth gyflogi staff nad wyf yn gwahaniaethu yn erbyn neb, fy mod yn hybu cyfle cyfartal i bawb ac yn meithrin perthynas dda rhwng aelodau staff.			
Cwblhawyd pob amcan erbyn 31 Mawrth 2015.			
2. Sicrhau bod fy mholisïau a'm harferion caffael a'r dogfennau tendro cysylltiedig yn cymryd i ystyriaeth yr angen i ateb gofynion cydraddoldeb cyfreithiol.			
Fe adolygaf fy holl bolisïau ac arferion caffael a'm dogfennau tendro i sicrhau eu bod yn cwblhau dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad	Erbyn Mawrth 2016	Tystiolaeth fod pob polisi a dogfen wedi'u diweddaru.
Fe sicrhaf fod contractwyr yn gwbl ymwybodol o'm dyletswyddau cydraddoldeb drwy eu hysgrifennu mewn contractau, ac o'u cyfrifoledb i ddarparu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau mewn modd na fydd yn torri'r dyletswyddau hynny.	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad	Erbyn Mawrth 2016	Tystiolaeth fod contractwyr wedi llofnodi dogfen i gydhabod y newidiadau.

3. Sicrhau bod fy ngwaith yn berthnasol i bobl hŷn, ac y gwelir ei fod yn berthnasol i bawb ohonynt.			
Fe ymgysylltaf yn fwy o lawer â phobl hŷn ar draws yr holl wahanol nodweddion gwarchoddedig a thrwy hyn sicrhaf fod eu lleisiau'n bwydo ac yn llywio fy ngwaith.	Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Erbyn Mawrth 2016	Tystiolaeth fod: Y grwpiau yr ymgysylltaf â hwy'n gynrychioliadol o'r amrywiaeth ehangach o bobl hŷn a'm bod wedi chwilio am grwpiau a gaiff eu hanwybyddu'n aml, ac wedi ymweld â hwy. Y bobl hŷn y gwrandawaf arnynt yn fwy cynrychioliadol o'r amrywiaeth ehangach o bobl hŷn nag yn 2008-2013; a Fy nghyhoeddiadau'n berthnasol ac yn hygyrch i amrediad llawer lletach o bobl hŷn nag yn 2008-2013, ac yn adlewyrchu a gwyntyllu materion a godwyd ganddynt.
4. Sicrhau bod fy ngwaith wedi'i seilio fwyfwy ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau a bod agenda hawliau'n cael ei datblygu drwy Gymru gyfan.			
Fe arfogaf fy staff i ddeall a hyrwyddo beth a olygir yn ymarferol wrth ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol.	Cyfarwyddwr Gwarchod a Chraffu	Mawrth 2016	Tystiolaeth o: Staff yn arddel dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol yn eu gwaith. Staff yn helpu eraill y tu allan i'r sefydliad i ddeall sut mae hawliau dynol yn gweithio'n ymarferol, yn enwedig i bobl hŷn.
5. Grymuso ac arfogi pobl hŷn i herio'r gwahaniaethu y maent yn ei wynebu.			
Fe ddarparaf gefnogaeth a chymorth i bobl hŷn sydd wedi dioddef gwahaniaethu gan dioddef gwahaniaethu gan	Cyfarwyddwr Gwarchod a Chraffu	Erbyn Mawrth 2016	Tystiolaeth fod: Pobl hŷn sydd wedi dioddef gwahaniaethu yn cael cymorth effeithiol gennyf fi a'm tîm i herio

<p>ddefnyddio, lle bo'n briodol, fy mhwerau cyfreithiol.</p>			<p>gwahaniaethu a chael canlyniadau cadarnhaol yn y rhan fwyaf o achosion.</p> <p>Cyrff cyhoeddus sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cael eu herio gennyf fi ac yn newid polisiau neu arferion o ganlyniad.</p> <p>Pobl hŷn eraill yn cael budd ehangach yn sgil datrys achosion unigol sy'n arwain at newidiadau mewn polisiau neu arferion.</p>
<p>6. Hyrwyddo darlun cywir a chytwys o bobl hŷn yn eu holl amrywiaeth, cynyddu dealltwriaeth am bobl hŷn a'u hanghenion a herio ystrydebau di-sail a bychanol, yn fy sefydliad i ac ymysg sefydliadau eraill.</p>			
<p>Fe heriaf ystrydebau a mythau negyddol am bobl hŷn yn barhaus, gan osod disgwyliadau clir ar gyfer newid.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwarchod a Chraffu</p>	<p>Erbyn Mawrth 2016</p>	<p>Tystiolaeth sy'n dangos:</p> <p>Llai o enghreifftiau o ddefnyddio iaith negyddol neu fychanol am bobl hŷn gan y cyfryngau a mwy o enghreifftiau o iaith a hanesion cadarnhaol am bobl hŷn.</p> <p>Bod pobl hŷn yn herio gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol yn llwyddiannus o ddydd i ddydd.</p> <p>Bod dogfennau a gwasanaethau cyhoeddus yn sôn llai am bobl hŷn fel grŵp unffurf a mwy am anghenion a dyheadau unigolion hŷn a sut y cyflawnir y rhain.</p>

<p>7. Annog a chefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gydymffurfio â'u dyletswyddau eu hunain dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y maent yn berthnasol i bobl hŷn a herio achosion difrifol o beidio â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Lles a Grymuso</p>	<p>Erbyn Mawrth 2016</p>	<p>Tystiolaeth:</p> <p>Fy mod wedi adolygu gwasanaethau cyhoeddus ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer newid cadarnhaol.</p> <p>Fod cyrff cyhoeddus wedi ymateb ac yn gweithredu'r rhan fwyaf o'm hargymhellion.</p> <p>Fy mod yn galw i gyfrif – gan ddefnyddio pŵerau cyfreithiol lle bo angen – unrhyw gyrff cyhoeddus sy'n gwrthod gweithredu fy argymhellion, heb reswm da.</p>
--	-----------------------------------	--------------------------	--

Atodiad C: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Mabwysiadwyd Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (Penderfyniad 46/91) ar 16 Rhagfyr 1991. Anogwyd llywodraethau i'w hymgorffori yn eu rhaglenni cenedlaethol lle bynnag y gellid. Mae 18 o egwyddorion, y gellir eu grwpio dan bum thema: annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunangyflawniad ac urddas.

Annibyniaeth

1. Dylai pobl hŷn allu cael bwyd, dŵr, lloches, dillad a gofal iechyd digonol drwy ddarpariaeth incwm, cefnogaeth i deuluoedd a chymunedau, a hunangymorth.
2. Dylai pobl hŷn gael y cyfle i weithio neu allu cael cyfleon eraill i greu incwm.
3. Dylai pobl hŷn allu cael rhan mewn penderfynu pa bryd ac ar ba gyflymder y dylid cilio o'r gweithlu.
4. Dylai pobl hŷn allu cael mynediad i raglenni addysg a hyfforddiant priodol.
5. Dylai pobl hŷn allu byw mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac y gellir ei addasu yn ôl dewis personol a newid mewn gallu.
6. Dylai pobl hŷn allu byw gartref am gyhyd ag sy'n bosibl.

Cyfranogiad

7. Dylai pobl hŷn barhau'n rhan o gymdeithas, cyfranogi o ddifri yn ffurfiant a gweithrediad polisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu lles a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau â chenedlaethau iau.
8. Dylai pobl hŷn allu ceisio a datblygu cyfleon i wasanaethu'r gymuned ac i wirfoddoli mewn swyddi priodol i'w diddordebau a'u galluoedd.
9. Dylai pobl hŷn allu ffurfio mudiadau neu gymdeithasau o bobl hŷn.

Gofal

10. Dylai pobl hŷn gael budd gofal a gwarchodaeth yn y teulu a'r gymuned yn unol â system werthoedd diwylliannol pob cymdeithas.
11. Dylai pobl hŷn allu cael gofal iechyd i'w helpu i gadw neu adennill y lefel

orau bosib o les corfforol, meddyliol ac emosiynol ac i atal neu oedi dyfodiad salwch.

12. Dylai pobl hŷn allu cael gwasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol i hybu eu hannibyniaeth, eu gwarchodaeth a'u gofal.
13. Dylai pobl hŷn allu defnyddio lefelau priodol o ofal sefydliadol sy'n darparu gwarchodaeth, gwasanaeth ailsefydlu ac ysgogiad cymdeithasol a meddyliol mewn amgylchedd gwaraidd a diogel.
14. Dylai pobl hŷn allu mwynhau hawliau dynol a rhyddid sylfaenol pan fyddant yn byw mewn unrhyw sefydliad nawdd, gofal neu driniaethol, gan gynnwys parch llawn i'w hurddas, eu credoau, eu hanghenion a'u preifatrwydd ac i'r hawl i wneud penderfyniadau am eu gofal ac ansawdd eu bywyd.

Hunangyflawniad

15. Dylai pobl hŷn allu dilyn cyfleon i ddatblygu eu potensial yn llawn.
16. Dylai pobl hŷn gael mynediad at adnoddau addysgol, diwylliannol, ysbrydol ac adloniannol cymdeithas.

Urddas

17. Dylai pobl hŷn allu byw mewn urddas a diogelwch a pheidio â chael eu hecsbloetio na'u cam-drin yn gorfforol nac yn feddyliol.
18. Dylai pobl hŷn gael eu trin yn deg, beth bynnag fo'u hoed, eu rhyw, eu cefndir hiliol neu ethnig, eu hanabledd neu unrhyw statws arall, a chael eu gwerthfawrogi heb ystyried eu cyfraniad economaidd.

Gellir cael mwy o wybodaeth am Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yma: <http://www.un.org/documents/ga/res/46/a46r091.htm>

